LEG-20-2002 (min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 15 Hydref 2002 |
| **Amser:** | 9.30am |
| **Lleoliad**: | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

| **Presennol:** | |
|---|---|
| Mick Bates | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwyr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Janice Gregory | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Ann Jones | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Karen Sinclair | (Llafur) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

| **Swyddogion** | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Dim

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-19-2002 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor yn ôl i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Deddfau ar ôl wythnosau etholaethol yr haf. Croesawodd y Cadeirydd yr aelod newydd Ann Jones a chroesawodd Rosemary Butler a Karen Sinclair yn ôl i'r

Pwyllgor. Diolchodd y Cadeirydd i Janice Gregory, Val Lloyd a Gwenda Thomas am eu gwaith yn y Pwyllgor.

2.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod yn rhaid anfon llythyr ymddiswyddo byr wedi'i lofnodi at y Llywydd pan fydd aelod yn ymddiswyddo o Bwyllgor.

2.3 Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor bod fersiwn byrrach o'r Seminar ar Ddrafftio Is-ddeddfwriaeth wedi'i gynnal ar 17 Gorffennaf 2002. Mynychwyd y seminar bach gan Gadeiryddion a Chlercod y Pwyllgorau Pwnc ac fe'i cadeiriwyd gan Bennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau Marie Knox. Cafwyd cyflwyniadau gan Ymgynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau, John Turnbull, Uwch Gwnsler y Cynulliad, Nerys Arch a Chwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad, Peter Jones.

2.4 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod awgrym yng nghyfarfod y Pwyllgor Deddfau ar 16 Gorffennaf y gallai Aelodau'r Pwyllgor elwa ar ymweliad arall â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol er mwyn gwerthfawrogi'r broses o ddrafftio deddfwriaeth. Mae'r ymweliad hwn yn cael ei drefnu ar hyn o bryd a hysbysir y Pwyllgor o'r dyddiad yn y cyfarfod nesaf.

2.5 Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod y Llywydd wedi cael gwahoddiad gan Bwyllgor Sefydlog Senedd Tasmania ar Is-ddeddfwriaeth i Wythfed Gynhadledd Awstralia a'r Môr Tawel ar Ddeddfwriaeth Dadreoledig a Phumed Gynhadledd Awstralia a'r Môr Tawel ar Graffu ar Fesurau, i'w cynnal yn Hobart, Tasmania ar y 4ydd, 5ed a'r 6ed o Chwefror 2003. Bydd y gynhadledd yn ymwneud yn benodol â'r problemau sy'n gysylltiedig â chraffu ar bob math o is-ddeddfwriaeth a Mesurau. Dywedodd y Cadeirydd fod y Llywydd wedi cyfeirio'r gwahoddiad ato ef er mwyn i'r Pwyllgor Deddfau allu gwneud penderfyniad ynglŷn â ph'un a ddylai aelod o'r Pwyllgor fynychu'r Gynhadledd.

2.6 Ar ôl trafodaeth, daeth yr Aelodau i'r casgliad y byddent yn ystyried y mater ymhellach unwaith y byddent yn gwybod beth roedd llywodraethau datganoledig eraill yn bwriadu ei wneud.

2.7 Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor i Huw Davies gael ei symud o'i swydd fel Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol ac y byddai bellach yn gweithio ar gyfer y tîm cyfreithiol addysg. Ar ran y Pwyllgor, diolchodd y Cadeirydd i Huw am ei gymorth

dros y flwyddyn a hanner diwethaf. Croesawodd y Cadeirydd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol newydd Huw Rowlands.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC530 – Rheoliadau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid (Cynnyrch o Darddiad Anifeiliaid o Tsieina) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2002**

3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5.Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC530 (Adroddiad).

**LC531 – Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2002**

3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor, ac yr oedd yn dymuno i'r Ymgynghorydd Cyfreithiol eu cymeradwyo'n benodol i'r Cyfreithiwr drafftio rhag ofyn y byddai angen gwneud darpariaeth debyg unwaith eto.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC531 (Adroddiad).

3.7 Mynegodd yr Aelodau bryder ynglŷn â'r posibilrwydd y byddai angen llacio ar y Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002 a'r Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002 dros dro yn yr un modd ar gyfer cynlluniau chwarae y Pasg a'r gwyliau hanner tymor. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith bod y Rheoliadau dan sylw yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 22 Gorffennaf 2002 a 13 Medi 2002 ac felly nid ydynt yn cwmpasu unrhyw gyfnodau eraill. Yn ogystal, mae'r materion ynglŷn â chraffu ar bolisïau y tu allan i gwmpas y Pwyllgor Deddfau.

**LC532 – Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2002**

3.8 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'w Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol.

3.10 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC533 (Adroddiad).

**LC533 – Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2002**

3.11 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.12 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.13 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC533 (Adroddiad).

**LC534 – Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygiad Rhif 3) 2002**

3.14 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.15 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.16 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC534 (Adroddiad).

**LC535 – Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2002**

3.17 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.18 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor dri sylw y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.19 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC535 (Adroddiad).

**LC536 – Gorchymyn Consesiynau Teithio (Gwasanaethau Cymwys) (Cymru) 2002**

3.20 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.21 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i Erthygl 1(1) ac Erthygl 3(4) mewn perthynas â'r materion a nodwyd yn yr adroddiad.

3.22 Gwnaeth y Pwyllgor sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.23 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC536 (Adroddiad).

**LC537 – Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) 2002**

3.24 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.25 Roedd yr Aelodau yn pryderu ynghylch y sylw mewn perthynas â Rheoliad 15(12). Cytunwyd y byddai'r Ymgynghorydd Cyfreithiol yn trafod y mater ymhellach gyda'r cyfreithiwr drafftio gan gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.
**Gweithredu:Ymgynghorydd Cyfreithiol.**

**LC538 – Gorchymyn Diwygio Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) (Rhif 2) 2002**

3.26 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.27 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor dri sylw y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.28 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC538 (Adroddiad).

**LC539 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygiad Rhif 2) (Cymru) 2002**

3.29 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.30 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.31 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC530 (Adroddiad).

**LC540 – Rheoliadau Bwyd (Cnau Daear o Tsieina) (Rheolaeth Frys) (Rhif 2) (Cymru) 2002**

3.32 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.33 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.34 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC540 (Adroddiad).

**LC541 – Rheoliadau Diogelu Dŵr Rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.35 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.36 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor dri sylw y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.37 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC541 (Adroddiad).

**LC542 – Rheoliadau Bwyd (Ffigys, Cnau Cyll a Chnau Pistachio o Dwrci) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2002**

3.38 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.39 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddynt wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol.

3.40 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC542 (Adroddiad).

**LC543 – Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002**

3.41 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.42 O ran y pwynt a godwyd mewn perthynas â Rheoliad 5(2)(f)/(dd) holodd Aelodau ynglŷn â'r sylw mai'r testun Saesneg oedd y fersiwn a fwriadwyd. Cyfeiriwyd at y ddarpariaeth gyfatebol yn Rheoliad 4(2)(dd)/(f) lle cyfeirir yn y ddau destun at symudiadau i sioeau ac o sioeau mewn perthynas â defaid. Penderfynwyd y byddai'r Ymgynghorydd Cyfreithiol yn egluro'r pwynt hwn ac y dylid ailystyried y Gorchymyn felly yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol.**

**LC544 – Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002**

3.43 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.44 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i Erthygl 4, Erthygl 6(4) ac Erthygl 9(1) oherwydd ymddengys eu bod wedi'u drafftio'n ddiffygiol.

3.45 Gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol y dylid eu cynnwys yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.46 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC544 (Adroddiad).

**LC545 – Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002**

3.47 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.48 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i Erthygl 3(1) o'r Gorchymyn hwn ar y sail bod anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a Saesneg a bod y testun Cymraeg wedi'i ddrafftio'n ddiffygiol.

3.49 Gwnaeth y Pwyllgor sylw y dylid ei gynnwys yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.50 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC545 (Adroddiad).

**LC546 – Rheoliadau Bucholion a Chynhyrchion Buchol (Masnach) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002**

3.51 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.52 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i Reoliad 11(3)(c) oherwydd ymddengys ei fod wedi'i ddrafftio'n ddiffygiol.

3.53 Gwnaeth y Pwyllgor sylw y dylid ei gynnwys yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.54 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliad fel LC546 (Adroddiad).

**LC547 – Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2002**

3.55 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.56 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i Erthygl 2(8)(a) oherwydd ymddengys ei bod wedi'i drafftio'n ddiffygiol.

3.57 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC547 (Adroddiad).

**LC548 – Gorchymyn Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002**

3.58 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.59 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.60 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC548 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

4.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 29 Hydref 2002.